



Hyfforddiant Meddygaeth Gofal Dwys yng Nghymru.

Mae Meddygaeth Gofal Dwys yn arbenigedd deinamig a chyffrous, ac yn denu meddygon brwdfrydig sy'n awyddus i helpu cleifion ag anafiadau neu salwch sy'n bygwth eu bywydau mewn ysbytai.

Dechreuir ar hyfforddiant CCT Meddygaeth Gofal Dwys ar lefel ST3, ar ôl cwblhau un o bedair rhaglen graidd benodol: Llwybr Craidd Gofal

Acíwt (ACCS), Hyfforddiant Anesthetig Craidd (CAT), Hyfforddiant Meddygol Craidd (CMT) neu Lwybr Mynediad i Feddygaeth Frys (DRE-EM).

Rhaid i'r hyfforddeion fod wedi cwblhau un o'r rhaglenni craidd hyn, gan gynnwys yr arholiad cysylltiedig: FRCA (Sylfaenol), MRCP (UK), or MCEM (Llawn).

Croeso i'r Hyfforddiant.

Hyfforddiant Meddygaeth Gofal Dwys yng Nghymru.

Rhaglen ymatebol sydd wedi'i llunio i ddiwallu eich anghenion

Mae'r rhaglen CCT Meddygaeth Gofal Dwys wedi'i rhannu'n dri phrif gam.

Byddwch yn dechrau ar Gam 1, ond gan ddibynnu ar eich hyfforddiant blaenorol a lleoliadau a gwblhawyd, gall yr amser sy'n cael ei dreulio ar Gam 1 amrywio. Mae Cam 1 yn lleiafswm o bedair blynedd, sy'n cynnwys unrhyw raglen hyfforddiant craidd, a all gyfrif tuag at CCT mewn Meddygaeth Gofal Dwys. Ar ddiwedd y cam hwn, bydd yr holl hyfforddeion, beth bynnag eu rhaglen graidd, wedi cwblhau o leiaf flwyddyn o Anaestheteg, blwyddyn o Feddygaeth Aciwt a blwyddyn o Feddygaeth Gofal Dwys.

Mae Cam 2 yn ddwy flynedd, ac yn cynnwys pedwar lleoliad 3 mis (Unedau Gofal Dwys y Galon, Cyffredinol, Niwrolegol a Phlant). Os ydych mewn rhaglen ddeuol, bydd blwyddyn yn cael ei threulio yn yr arbenigedd arall er mwyn llwyddo i gyflawni'r cymwyseddau angenrheidiol i sicrhau achrediad deuil. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch hefyd yn cwblhau'r arholiad FFICM.

Mae Cam 3 yn para am flwyddyn, a dyma flwyddyn olaf yr hyfforddiant Meddygaeth Gofal Dwys. Dyma'r flwyddyn 'uwch', sy'n cael ei threulio'n llwyr mewn uned gofal dwys, gyda'r nod o ganiatáu i'r hyfforddeion ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a rheoli wrth baratoi i fod yn feddyg ymgynghorol.

Mae'n bosibl cwblhau CCT deuil gyda'r arbenigeddau canlynol yng Nghymru: Meddygaeth Fewnol Aciwt / Anaesthesia / Meddygaeth Frys / Meddygaeth Arennol / Meddygaeth Anadlol.

Cefnogi llwyddiant mewn arholiadau

Drwy hyfforddi yng Nghymru, byddwch yn gymwys ar gyfer ein cwrs rhad ac am ddim i'ch helpu i baratoi ar gyfer arholiad FFICM terfynol, y gallwch ei gymryd ar unrhyw adeg yn ystod Cam 2. Rydym hefyd yn addasu ein rhaglen hyfforddi rhanbarthol i dargedu cwricwlwm yr arholiad.

Mae cyfradd basio ardderchog yng Nghymru, gyda'r hyfforddeion yn llwyddo i sicrhau canlyniadau sy'n aml yn well na rhai rhanbarthau eraill.